

CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd), Y Cynghorydd I.R. Buckley (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, A.M. Collins, J.M. Norman a J. Protheroe.

Cynrychiolydd o'r Sector Gwirfoddol: L. Newton (Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro) a'r Cynghorydd C. Hawkins (Cynrychiolydd Cynghorwyr Tref a Chymuned)

481 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

482 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd L. Burnett; R. Connor (Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg) a H. Smith (Barnardos).

483 COFNODION –

CYNTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

484 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

485 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol ar 15 Mawrth 2023. Roedd y Pwyllgor Craffu wedi argymhell i'r adroddiad gael ei gyfeirio at Gyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol er gwybodaeth ac i'w ystyried. Dywedodd y Swyddog Polisi mai hwn oedd adroddiad blynyddol cyntaf y Cynllun Lles newydd ac roedd yr adroddiad yn nodi gwaith y

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Adran 2 oedd prif gorff yr adroddiad a ddarparodd ddiweddariadau cynnydd ar y gwaith i gyflawni tair ffrwd waith â blaenoriaeth, manylion y prosiect a'r camau nesaf wrth symud ymlaen. Roedd 19 o gamau wedi'u nodi gan y BGC i gyflawni'r Amcanion Lles wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Bruce ynglŷn ag enw'r swyddog sy'n ymwneud â'r gwaith o fynd i'r afael ag annhegwch mewn cymunedau difreintiedig, nodwyd mai Sarah Cutting o'r Adran Adfywio a Chynllunio oedd y swyddog i gysylltu â hi.

Nodwyd ymhellach fod y BGC wedi parhau i ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth yn Adran 3 yr adroddiad ac i ddefnyddio'r data i ddatblygu gwell mewnwelediadau ac i lywio gweithgareddau. I gloi, cyfeiriodd y swyddog at Adran 4 yr adroddiad, gan dynnu sylw at y gwaith sydd o'n blaenau a'r uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Holodd y Cadeirydd faint o berthynas yr oedd y BGC wedi'i alluogi i'w gael gyda'r Bwrdd Iechyd gan nad oedd modd cyflawni rhai o'r cyflawniadau / dyheadau heb eu cefnogaeth. Dywedodd y Swyddog Polisi mewn ymateb ei fod yn ymwneud â chyfuno adnoddau, gan nodi y byddai nifer o'r prosiectau partneriaeth yn cael eu cefnogi gan y Bwrdd Iechyd, gyda'r Cyfarwyddwr yn nodi bod y BGC yn fforwm defnyddiol lle gellid codi pryderon ar y cyd gan dynnu sylw nad oedd modd gwneud y gwaith ar eu pennau eu hunain. Yn dilyn hynny, holodd y Cadeirydd am yr amserlen ar gyfer gwneud cynnydd mewn perthynas â'r gwaith. Ymatebodd y Cyfarwyddwr drwy ddweud bod y cynnydd yn erbyn gwaith y BGC yn barhaus ac roedd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu'n enfawr at hyn. O ran ymholiad y Cadeirydd yn ymwneud â chynnydd mewn perthynas â Chanolfan Iechyd Penarth, cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr yn gofyn am ymateb gan y Bwrdd Iechyd ac yn cynghori'r Aelodau yn unol â hynny.

Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe, sy'n ymwneud â materion o amgylch cydweithio a chyfuno adnoddau, ble roedd modd cyfuno adnoddau gyda phawb yn gweithio gyda'i gilydd. Dywedodd y Swyddog Polisi fod yr Adroddiad Blynyddol yn darparu enghreifftiau o brosiectau cyfredol lle roedd gwaith yn cael ei wneud gyda'i gilydd a lle gellid mynd ar drywydd cyfleoedd i sefydliadau rwydweithio a gwneud cysylltiadau newydd.

CYTUNWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg i gydnabod y gwaith a wnaed a'r cyfleoedd i'w datblygu yn y dyfodol.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol y BGC a thrafodaethau yn y cyfarfod.

486 RHAGLEN AIL-LUNIO: CRYFHAU CYMUNEDAU - YMATEB I
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU AR DRECHU TLODI A GWAITH TRYDYDD
SECTOR (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad ar 19 Medi 2024 at Gyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol er gwybodaeth ac i'w ystyried, gydag unrhyw farn i'w chyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried ymhellach. Dywedodd y Swyddog Polisi, wrth gyflwyno'r

adroddiad, fod adroddiad ar Gryfhau Cymunedau ym mis Hydref 2023, Gwaith i Drechu Tlodi a'r Argyfwng Costau Byw wedi cael eu hystyried gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad hwnnw wedi manylu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor a'r dull arfaethedig o ymateb i bedwar adroddiad Archwilio Cymru. O ganlyniad, roedd Asiantaeth Datblygu Cwmpas wedi cael ei chomisiynu ar ran y Cyngor i ymgymryd â rhaglen ymgysylltu. Roedd y gwaith ymgysylltu'n canolbwyntio ar yr argymhellion a gynhwysir yn adroddiadau'r Archwiliad yn ogystal â gweithio gyda'r Trydydd Sector. Gellid dod o hyd i ganfyddiadau ac argymhellion Cwmpas yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd fod ganddi ddiddordeb mawr ym mha waith i'w wneud gyda'r Adran Addysg mewn perthynas â threchu tlodi. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod adroddiad Cwmpas yn darparu dull integredig gydag ysgolion, gan gynghori bod y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau yn awyddus i gefnogi ysgolion, gan ystyried y model Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned.

Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Protheroe yn dweud ei bod yn croesawu'r adroddiad, yn cydnabod bod angen i'r Cyngor wneud mwy gyda Mentrau Cymdeithasol a holi ynghylch beth arall y gallai'r Cyngor ei gynnig a sut y byddai'r Cyngor yn cynllunio a chomisiynu dyfynbrisiau a thendrau i gynorthwyo sefydliadau i wneud cais. Dywedodd y Cyfarwyddwr y gallai'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Fforwm Adran 16 gynorthwyo yma i ddod â chydweithwyr Menter Gymdeithasol i mewn yn y camau cynnar iawn yn ogystal ag ystyried pa ddulliau gwahanol y gellid eu gwneud wrth symud ymlaen.

Dywedodd Linda Newton (Gweithredu dros lechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro) ei bod yn credu ei fod yn adroddiad cadarnhaol iawn ac yn croesawu deialog bellach hefyd i'w chynnal wrth sôn ei bod yn bwysig sicrhau bod gan grwpiau llai lais hefyd.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Conway Hawkins, cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned, wrth gyfeirio at yr adolygiad Trosglwyddo Asedau Cymunedol arfaethedig, ynghylch y broses a'r llinell amser ar gyfer y gwaith ac o ran Compact y Sector Gwirfoddol dywedodd fod adroddiad Cwmpas yn cynghori y dylid ei adnewyddu ond bod y penderfyniad wedi'i wneud i beidio â'i ddatblygu. Dywedodd y Swyddog Polisi y byddai egwyddorion o fewn y Compact, yn cael eu datblygu o fewn y Cynllun Corfforaethol gyda'r bwriad o ymgysylltu ymhellach â sefydliadau eraill. O ran yr adolygiad o'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol, dywedodd y Cyfarwyddwr er bod y broses bresennol yn ddefnyddiol, bod amrywiaeth o ffyrdd i weithio gyda sefydliadau a allai fod yn gyflymach yn y broses, gyda thrafodaethau wedi'u cynnal yn ddiweddar gyda'r sefydliad Un Llais Cymru ynghylch pa fathau o weithdrefnau/prosesau y gellid eu cyflwyno a hefyd ystyried enghreifftiau o arfer da.

CYTUNWYD – Y DYLID nodi'r adroddiad a bod diweddariad pellach ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ebrill 2025 y Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, y cyflwyniad a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd.

487 PROSIECT CELT – DIWEDDARIAD LLAFAR GAN RACHEL CONNOR, PRIF WEITHREDWR, SECTOR GWIRFODDOL MORGANNWG MEWN PERTHYNAS Â GWAITH Y SECTOR GWIRFODDOL GYDA PHROSIECT CELT –

Gan nad oedd Prif Weithredwr Sector Gwirfoddol Morgannwg yn bresennol yr oedd

CYTUNWYD – Y dylid gofyn i Brif Weithredwr Sector Gwirfoddol Morgannwg baratoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor, os oedd mater amserlen, neu i ohirio'r eitem tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

488 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

489 CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2025-30 (CYF) –

(Ar fyrder er mwyn i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ystyried yr adroddiad yn ystod y cyfnod ymgynghori)

Roedd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 10 Hydref, 2024, wedi cyfeirio'r adroddiad at y Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol fel rhan o'r rhaglen ymgynghori, gan ofyn am rannu unrhyw sylwadau gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol er mwyn llywio diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol, cyn i'r Cabinet ystyried drafft terfynol maes o law. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr gyda'r adroddiad gyflwyniad PowerPoint i Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn manylu ar strwythur y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y dyfodol, tynnodd sylw hefyd at yr amcanion lles a'r gwaith sy'n ofynnol sy'n gysylltiedig â'r amcanion yn ogystal ag ymrwymïadau'r Cyngor i'r rhai sy'n gweithio gyda'r Cyngor.

I gloi, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw at amserlen y Cynllun fel a ganlyn –

- 10 Hydref – Cabinet yn cymeradwyo Cynllun drafft ar gyfer ymgynghori;
- 14 Hydref – Lansio ymgynghoriad;
- 8 Rhagfyr - yr ymgynghoriad yn cau;
- Rhagfyr / Ionawr – Adolygu'r cynllun ar ol yr ymgynghoriad
- 19 Chwefror – Pwyllgor Craffu AYP yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a Chynllun diwygiedig;
- 20 Chwefror – y Cabinet yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a Chynllun diwygiedig;
- 3 Mawrth – y Cyngor yn cymeradwyo Cynllun newydd;
- 1 Ebrill – Cyhoeddi cynllun.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe ei fod yn Gynllun Corfforaethol da iawn, roedd yn glir iawn am uchelgeisiau'r Cyngor, ac roedd hi'n edrych ymlaen at weld sut y byddai canlyniadau'n cael eu mesur. Holodd ymhellach a oedd unrhyw feincnodau arfaethedig er mwyn mesur pa gynnydd oedd yn cael ei wneud. Dywedodd y

Cyfarwyddwr fod ystod o fesurau i'w rhoi ar waith gyda llinellau sylfaen hefyd yn cael eu sefydlu i fesur cynnydd.

Roedd y Cynllun hefyd wedi creu argraff ar y Cynghorydd Buckley ac roedd yn edrych ymlaen at y cynnydd a'r gwahaniaeth y gallai ei wneud.

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad a bod diweddariad pellach ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Ebrill 2025 y Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys yr adroddiad, y cyflwyniad a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd.